Ein cyf: PT/jm

Eich cyf:

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2012

Gofynnwch am: James Merrifield

01656 644 200

James.Merrifield@ombwdsmon-cymru.org.uk

Mr Anthony O'Sullivan
Prif Weithredwr
Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Penallta House
Tredomen Park
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG

Annwyl Mr O'Sullivan

Llythyr Blynyddol 2011/12

Yn dilyn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, rwy'n falch o gynnwys y Llythyr Blynyddol (2011-2012) ar gyfer Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r Llythyr Blynyddol yn rhoi dadansoddiad clir a chryno i chi o'r holl gwynion a dderbyniwyd, ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa i, yn ystod 2011/12 yng nghyswllt eich Cyngor. Fe welwch hefyd fanylion yr amser a gymerodd eich Cyngor i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa i, yn ogystal â chrynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt eich Cyngor.

Fel y nodir yn fy Adroddiad Blynyddol, gwelwyd 13% o gynnydd yng nghyfanswm y cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa am gamweinyddu a methiannau yn y gwasanaeth o'i gymharu â 2010/11. Er mai cwynion iechyd eto yw'r math mwyaf niferus o gŵyn a dderbyniwyd gan fy swyddfa, meysydd Cynllunio a Thai o hyd yw'r mathau mwyaf niferus wedyn.

Mae'n braf nodi'r lefelau cynyddol o 'Atebion Sydyn' a 'Setliadau Gwirfoddol' na fyddai'n bosibl yn aml heb gydweithrediad cyrff cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y llwyddwyd i gynyddu nifer y cwynion a gafodd eu terfynu ar gamau cynharach heb yr angen i gynnal ymchwiliad llawn (lle mae'n glir nad oes ystyriaethau systemig yn gysylltiedig â'r gŵyn).

Serch hynny, mae fy swyddfa wedi gorfod cyhoeddi nifer o Adroddiadau Budd Cyhoeddus yn ystod 2011/12 a amlygodd fethiannau a phryderon difrifol. Mae nifer yn ymwneud â chwynion am awdurdodau lleol, a byddwn yn annog pob cyngor i edrych eto ar yr adroddiadau hyn, sydd ar gael ar fy ngwefan, i wneud yn siŵr bod y gwersi'n cael eu dysgu. Mae eraill yn ymwneud â materion iechyd ond gallent hefyd gynnwys cyfleoedd dysgu cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol.

Lleisiais bryderon yn Llythyrau Blynyddol y llynedd am yr amser y mae cyrff cyhoeddus yn ei gymryd yng Nghymru i ymateb i geisiadau gan fy swyddfa am wybodaeth ac mae'n siomedig nad yw'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r ystadegau ar gyfer 2011/12 yn dangos bod yr amseroedd ymateb ar gyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol, yn ogystal â chyrff eraill, yng Nghymru wedi gwaethygu i'r graddau bod oddeutu tri chwarter yr ymatebion yn cael eu derbyn dros bedair wythnos ar ôl gofyn amdanynt. Rwy'n parhau i annog pob corff cyhoeddus yng Nghymru i gynorthwyo fy staff i fwrw ymlaen â'u hymchwiliadau drwy ddarparu ymatebion yn brydlon.

Gan gyfeirio at berfformiad eich Cyngor, dengys y ffigurau y bu cynnydd bychan yn nifer y cwynion a ddaeth i law fy swyddfa ac yn y rhieni y cynhaliodd fy swyddfa ymchwiliad iddynt o'u cymharu â'r ffigurau ar gyfer 2010/11. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod y nifer fwyaf o gwynion yn ymwneud â Chynllunio a Rheoli Adeiladu, yna Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Mae'r niferoedd ar gyfer y tri maes cwyn yn uwch na'r rheini y gellid eu disgwyl ar gyfer eich Awdurdod.

Mae'n braf nodi na wnaeth fy swyddfa gyflwyno dim adroddiadau 'Wedi'u cadarnhau' yn erbyn eich Awdurdod yn ystod 2011/12. Mae hefyd yn braf nodi bod amseroedd ymateb eich Awdurdod yn cymharu'n ffafriol â'r ffigur cyfartalog ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, er bod lle i wella o hyd yn y maes hwn.

Yn olaf, rwyf wedi nodi fy mhryder am y 49% o gynnydd yn nifer y cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd gan fy swyddfa yn Adroddiad Blynyddol eleni, ynghyd â chamau y byddaf yn ystyried eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw arferion sy'n dod i'r wyneb yng nghyswllt y cyfryw gwynion. Rwyf hefyd wedi nodi newidiadau ar gyfer hyrwyddo proses datrys cwynion yn lleol a lleihau nifer y cwynion gan gynghorwyr yn erbyn cynghorwyr eraill y mae fy swyddfa yn eu derbyn. Oherwydd hyn, gobeithio y gallaf ddweud y bu gostyngiad yn nifer y cwynion Cod Ymddygiad a fydd wedi'u derbyn flwyddyn nesaf.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn y man. Byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod cynnwys y llythyr hwn a gwaith fy swyddfa, os byddai hynny'n fuddiol yn eich barn chi.

Yn gywir

Peter Tyndall
Ombwdsmon

Atodiad

Mae adrannau A a B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion yn erbyn Caerffili dderbyniwyd ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2011-2012.

Mae adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Caerffili a dderbyniwyd yn fy swyddfa yn ystod 2011-2012, â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod yr un cyfnod. Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc.

Mae adrannau D ac E yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Caerffili a dderbyniwyd, ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn 2011-2012, â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth[1]) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran F yn cymharu canlyniadau'r cwynion ar gyfer Caerffili yn ystod 2011-2012 â'r canlyniadau ar gyfartaledd (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Gelwir adroddiadau Budd Cyhoeddus a gyhoeddir o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn adroddiadau 'Adran 16'.

Mae Adran G yn cymharu amseroedd ymateb Caerffili yn ystod 2011-2012 â chyfartaledd yr amseroedd ymateb ar gyfer pob awdurdod lleol, a phob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae Graff G yn mesur yr amser rhwng y dyddiad y mae fy swyddfa yn anfon llythyr 'cychwyn ymchwiliad', a dyddiad derbyn ymateb llawn gan y cyrff cyhoeddus i'r llythyr hwnnw gan fy swyddfa.

Mae Adran H yn darparu dadansoddiad o'r holl gwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr Caerffili yn ystod 2011-2012.

Yn olaf, mae Adran 'I' yn cynnwys crynodebau'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt Caerffili yn ystod 2011-2012.

Er mwyn helpu i fesur perfformiad yn ystod 2011-2012, mae llawer o adrannau hefyd yn cynnwys y ffigurau perthnasol ar gyfer 2010-2011.

Stoc Tai
Fel gyda'r ffigurau ar gyfer 2010-2011, nid yw'r ffigurau ar gyfer 2011-2012 wedi cael eu haddasu i ystyried y broses o drosglwyddo'r stoc tai. Ond, nodir ei bod yn debygol y bydd mwy o gwynion Tai lle mae awdurdodau lleol wedi cadw'u stoc tai.

Adborth
Rydym yn croesawu eich adborth ar y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys yng nghrynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon unrhyw adborth neu ymholiadau at james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk.

[1] http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=16889. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i 0 lle degol.

A: Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa

Pwnc	**2011-2012**	**2010-2011**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	1	5
Gweinyddu Budd-daliadau	1	3
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant	9	5
Adnoddau Cymunedol ac Hamdden	0	1
Addysg	3	1
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	4	0
Cyllid a Threthiant	2	3
Iechyd	0	1
Tai	11	17
Cynllunio a rheolaeth adeiladu	16	10
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	3	5
Eraill Amrywiol	8	3
Cyfanswm	**58**	**54**

B: Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad

	2011-2012	**2010-2011**
Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad	5	3

C: Cymharu cwynion yn ôl categori testun gyda'r ffigur cyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol

2011-2012



2010-2011



D: Cymharu cwynion a ddaeth i law fy swyddfa gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth



E: Cymharu'r cwynion y bu i'm swyddfa ymchwilio iddynt gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth



F: Cymharu canlyniadau cwynion gyda'r canlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth

2011-2012



2010-2011



G: Cymharu amseroedd Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth ag amseroedd ymateb yr holl ALl a Chymru Gyfan ar gyfartaledd, 2011-2012



H: Cwynion y Cod Ymddygiad



I: Crynodebau'r adroddiadau

Addysg - Ni Chadarnhawyd

Tachwedd 2011 – Trefniadau derbyn ac apeliadau – Panel Apêl Derbyniadau, Ysgol Gynradd Tynewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Gwnaeth Mr B gais i'r Ysgol am le yn ei dosbarth derbyn i'w ferch (rwyf am ei galw'n Amy), ond gwrthodwyd y cais oherwydd y bu gormod o ymgeiswyr ar gyfer y nifer o lefydd a oedd ar gael ("gor-alw"). Nifer derbyn safonol cyhoeddedig yr Ysgol oedd 35, ond cafwyd 39 o ymgeiswyr am le yn y dosbarth derbyn. Cymhwysodd y Cyngor (fel yr awdurdod derbyn) ei feini prawf cyhoeddedig ar gyfer mynediad. Gan nad oedd Amy'n byw o fewn y dalgylch dynodedig, nad oedd ganddi frawd na chwaer yn yr Ysgol, a'i bod yn byw yn rhy bell o'r Ysgol, gwrthodwyd lle iddi. Yn hytrach, cynigiwyd lle iddi mewn ysgol yn y dalgylch lle yr oedd yn byw. Apeliodd Mr B i'r Panel, gan ddadlau bod Amy wedi mynychu dosbarth meithrin yr Ysgol yn flaenorol a bod mam Mr B yn byw gerllaw, a oedd yn gallu cymryd Amy bob dydd. Oni allai'r trefniant hwn barhau, byddai'n rhaid i un ai Mr B neu ei wraig roi'r gorau i'w gwaith er mwyn mynd ag Amy i'r ysgol a gynigiwyd, gan olygu caledi i'r teulu. Cymhwysodd y Panel y prawf niwed, lle y mae rheidrwydd ar y Panel dan gyfraith i ystyried a fyddai'r Ysgol yn cael ei niweidio drwy dderbyn hyd yn oed fwy o ddisgyblion y tu hwnt i'r nifer derbyn, a phe byddai hynny'n wir, a fyddai'r niwed i'r Ysgol yn cael ei orbwyso gan y dadleuon/amgylchiadau niweidiol a gyflwynwyd gan rieni'r plentyn. Gwrthododd y Panel apêl Mr B.

Cwynodd Mr B i'r Ombwdsmon ynghylch y canlynol: cyfansoddiad a chymwysterau aelodau'r Panel; y bu yn annheg, ac nad oedd wedi ystyried ei ddadleuon yn briodol; ei fod wedi rhuthro yn ei drafodaethau; ac nad oedd yr aelodau wedi gwisgo bathodynnau yn dangos eu henwau yn ystod y gwrandawiad. Yn erbyn y Cyngor, yr oedd ei gwynion yn cynnwys ei fod wedi defnyddio'r map anghywir i ddynodi dalgylch yr Ysgol (gan fod yr Ysgol wedi symud i safle newydd), a bod ei swyddog derbyniadau wedi dweud wrtho bod rhestr aros yr Ysgol wedi cau ar 31 Awst (a oedd cyn i dymor yr Ysgol ddechrau).

Canfu'r ymchwiliad bod cyfansoddiad, aelodaeth a chymwysterau'r Panel yn unol â'r Cod statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yr oedd aelodau'r Panel wedi cael eu cyflwyno i Mr B ar ddechrau'r gwrandawiad, felly hyd yn oed os nad oedd bathodynnau enwau, yr oedd wedi cael ei nodi pwy oeddynt. Yr oedd tystiolaeth bod y Panel wedi rhoi ystyriaeth i ddadleuon Mr B ac wedi cymhwyso'r prawf niwed yn briodol wrth wneud ei benderfyniad. Yr oedd gwybodaeth a gyhoeddwyd i rieni yn nodi'n benodol nad oedd sicrwydd y byddai plant yn cael lle yn nosbarth derbyn yr Ysgol os oeddynt wedi mynychu ei meithrinfa yn flaenorol, ac ysgrifennwyd at rieni. Nid oedd yr Ysgol newydd wedi newid y dalgylch, oherwydd wrth gymhwyso'r meini prawf derbyn yr oedd y pellter yn cael ei gyfrifo o'r safle newydd i gartref y plentyn a oedd yn ymgeisio. Yr oedd hyn mewn gwirionedd o fudd i Mr B yn y cyfrifiad, gan fod yr Ysgol yn ddaearyddol agosach, ond yr oedd yn parhau i fyw y tu allan i'w dalgylch. Yr oedd swyddog y Cyngor yn gywir yn ei sylw ynghylch y rhestr aros gan mai dyma'r dyddiad a bennwyd gan God Llywodraeth Cymru. Ni fu i'r Ombwdsmon gadarnhau cwynion Mr B.
Cyfeirnod achos 201101455 a 201101685